

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Chwefror 2024

1. Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

Y cefndir

2. Ar 19 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25, a oedd yn nodi ei chynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod hwnnw, ac yn diweddarau'r cynlluniau dangosol a amlinellwyd fel rhan o gyllidebau 2022-23 a 2023-24. Dyma flwyddyn olaf y cyfnod gwario tair blynedd.

3. Dywedir yn naratif y gyllideb ddrafft, 'Cyllideb i warchod y gwasanaethau sydd bwysicaf i chi':

"Wrth wneud y Cyllideb Ddrafft hon, bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau eithriadol o anodd - y rhai mwyaf cyfyng a phoenus ers datganoli (...)

Mae hon yn gyllideb anodd mewn cyfnod eithriadol."

4. Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi ail-lunio ei chyllideb "yn radical" i ganolbwyntio ar fuddsoddi yn y GIG ac i ddiogelu'r setliad llywodraeth leol craidd sy'n cyllido, ymhlith pethau eraill, gwasanaethau cymdeithasol a gofal

¹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023



cymdeithasol.² Mae wedi gwneud hynny yn unol â "set o egwyddorion arweiniol" sy'n cynnwys diogelu gwasanaethau cyhoeddus craidd, rheng flaen gymaint â phosibl.³

5. Yn ein **hadroddiad ar gyllideb ddrafft y llynedd**, nodom fod y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i wynebu pwysau sylweddol yn gysylltiedig â phandemig COVID-19, ôl-groniadau amseroedd aros, gweithredu diwydiannol, a chynnydd yn y galw dros gyfnod y gaeaf. Yn anffodus, mae'r materion hyn yn parhau ac, fel y nodir yn naratif cyllideb ddrafft 2024-25, maent yn cael eu profi ochr yn ochr â gwrthdaro yn Wcráin a'r Dwyrain Canol, chwyddiant uchel, argyfwng costau byw, ac argyfyngau natur a hinsawdd.⁴

6. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ragolygon ariannol y GIG yn 2024-25 fod "ymhlith y mwyaf heriol yr ydym erioed wedi'u hwynebu".⁵ Nodir yn naratif y gyllideb ddrafft y bydd y GIG yn cael £450 miliwn yn rhagor, sy'n ychwanegol at y £425 miliwn ar gyfer 2023-24 a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023. Mae hyn, meddir, yn "gyfwerth â chynnydd o fwy na 4% yn 2024-25",⁶ a bydd yn:

"(...)helpu i liniaru'r effeithiau mwy difrifol ar wasanaethau rheng flaen, gofal cleifion, mynediad a thargedau perfformiad.

*Drwy fuddsoddi mwy yn y GIG, rydym yn anelu at wrthbwyso'r effeithiau mwyaf difrifol ar draws pob rhan o Gymru a darparu amddiffyniad i bawb, gan gynnwys plant, pobl anabl, pobl hŷn a phobl agored i niwed."*⁷

7. Mewn perthynas â gofal cymdeithasol, mae naratif y gyllideb ddrafft yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal y Setliad Llywodraeth Leol ar 3.1%, gyda

² Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

³ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

⁴ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

⁵ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

⁶ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

⁷ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

chyfanswm cyfraniad cyllid craidd o £5.7 biliwn.⁸ Er gwaethaf hyn, nododd y bydd cynghorau'n:

*"(...) wynebu pwysau sylweddol a dewisiadau anodd wrth reoli eu setliadau yn 2024-25."*⁹

Dull o gynnal gwaith craffu

- 8.** Mae ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2024-25 wedi ei lywio gan:
- Ystyried y themâu trawsbynciol sydd wedi eu hamlinellu yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd.¹⁰
 - Tystiolaeth ysgrifenedig¹¹ ac ar lafar¹² gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Gweinidog"), y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, a'u swyddogion.
 - Ystyried tystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn ystod ei waith craffu, gan gynnwys ei ymgynghoriad a'i ymgysylltiad ar feysydd blaenoriaeth posibl.¹³
- 9.** Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng ein cylch gwaith ni a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yng nghyswllt iechyd corfforol a meddyliol a gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, rydym wedi rhannu gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y dystiolaeth a gawsom gan Lywodraeth Cymru a deunyddiau briffio preifat a baratowyd ar ein cyfer gan ein swyddogion.

⁸ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

⁹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

¹⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Strategaeth y Chweched Senedd, Rhagfyr 2021

¹¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

¹² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 77] (Sylwer: mae pob cyfeiriad yn yr adroddiad hwn at 'Gofnod y Trafodion' yn cyfeirio at gofnod trafodion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, oni nodir yn wahanol)

¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 [cyrchwyd Ionawr 2024]

Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi copi o'r llythyr a gyhoeddodd i'r Byrddau Iechyd ym mis Rhagfyr 2023 i'w ddefnyddio wrth baratoi eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig priodol. Lle bo'n berthnasol, dylai wneud hyn yn flynyddol, ochr yn ochr â chyhoeddi dogfennau cyllideb ddrafft eraill Llywodraeth Cymru.13
- Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda byrddau iechyd am ei blaenoriaethau ar gyfer eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-25.13
- Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi diweddariad blynyddol, cyn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, am waith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, yr arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod hwnnw, a'r cyfleoedd pellach y mae wedi eu nodi i ategu gwelliant ariannol.14
- Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion am sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn gallu sefydlogi eu cyllid o fewn cylch cynllunio tymor canolig integredig 2024-25 i 2026-27. Dylai hyn gynnwys amserlenni clir o ran lle mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd pob bwrdd iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, a sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro.14
- Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau nad yw pwysau cyllidebol yn arwain at wrthod gwasanaethau i bobl sy'n gymwys i gael gofal a chymorth.21
- Argymhelliad 6.** Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cyhoeddiadau sy'n ymwneud â chynyddu'r cap ar daliadau am ofal cartref.22
- Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion i ni am yr holl feysydd lle mae'n ystyried cynyddu taliadau am ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys yr arian tebygol a fyddai'n cael ei gynhyrchu ac amserlenni dangosol ar gyfer cynigion.22
- Argymhelliad 8.** Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion am ganfyddiadau gweithgor y Tasglu Hawliau Anabledd ar Fyw'n Annibynnol: Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys argymhellion a wnaed i

Lywodraeth Cymru a'r ymateb; sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r argymhellion, a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny.....22

Argymhelliad 9. Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion asesiad Llywodraeth Cymru o lefel y galw am ofal seibiant ledled Cymru a'r cyllid y byddai ei angen i ddiwallu anghenion yr holl ofalwyr di-dâl.23

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi pryd mae'n disgwyl i dargedau ar gyfer lleihau arosiadau cleifion allanol a dileu achosion o arosiadau dwy flynedd am driniaeth gael eu cyflawni. 26

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad hybiau rhanbarthol ledled Cymru, gan gynnwys amserlenni, y buddsoddiad sydd ei angen ac sydd ar gael i gefnogi eu datblygiad, a'r effaith y disgwylir i'r gwaith hwn ei chael ar leihau rhestrau aros. 26

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi sut bydd y gyllideb hon yn cyfrannu at ganlyniadau canser gwell i gleifion ledled Cymru.....27

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol egluro a fyddai hi'n cynyddu'r 5 y cant o ddyfarniad cyflog a wnaed i staff meddygol a deintyddol yng Nghymru pe bai cyllid canlyniadol ychwanegol ar gael gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.....34

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu ffigurau ar gyfer amcangyfrif o'r gost o gynnig codiad o 1 y cant ychwanegol i staff meddygol a deintyddol yng Nghymru. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, nodwn nad yw hwn yn gynnig sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.34

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion i ni am gost y gweithredu diwydiannol diweddar ar gyfer byrddau iechyd, o ran staffio a hefyd o ran lefelau gweithgarwch.....34

Argymhelliad 16. Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion i ni am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddal gafael yn y nifer sylweddol o staff sy'n bwriadu gadael y sector gofal cymdeithasol erbyn diwedd y flwyddyn.35

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o wybodaeth i ni am y gweithgarwch arfaethedig sy'n cael ei adolygu fel

rhan o'r gwaith o ailflaenoriaethu Grant y Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, ac ymrwymo i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw newid pellach arfaethedig yn y maes hwn.....35

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r effaith y bydd y newid yn y gyllideb ddrafft o atal sylfaenol tymor hwy i gymorth ar gyfer gwasanaethau rheng flaen yn ei chael ar iechyd y boblogaeth, a chynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal. Fel rhan o hyn, dylai hi sefydlu:.. 38

- sut mae cynnydd wrth gyflawni ei nod polisi o symud mwy o adnoddau allan o ysbytai tuag at ofal sylfaenol a chymunedol yn cael ei fesur, a 38
- pha bryd mae hi'n disgwyl bod mewn sefyllfa i gyfeirio mwy o adnoddau at ataliaeth tymor hwy..... 38

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno, ar draws ei holl adrannau, gategori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol, gan symud tuag at olwg cyllidebu tymor hwy er mwyn helpu i gynyddu a diogelu iechyd y boblogaeth..... 39

Argymhelliad 20. Dylai'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant nodi'r gwasanaethau, y rhaglenni neu'r mentrau a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf yn sgil peidio â rhoi'r £15 miliwn o gynnydd ar gyfer iechyd meddwl, a'r effaith debygol y bydd hyn yn ei chael ar ganlyniadau iechyd meddwl, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd fwyaf agored i anghydraddoldebau.....43

Argymhelliad 21. Dylai'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant roi ffigurau i ni ar gyfer y gwariant gwirioneddol gan fyrddau iechyd unigol o ran y cyllid sydd wedi ei neilltuo ar gyfer iechyd meddwl.43

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu gwybodaeth am sut mae'r dyraniadau cyfalaf yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn alinio â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ei llythyr ym mis Rhagfyr 2023 at fyrddau iechyd i lywio eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-25. Wrth wneud hynny, dylai nodi unrhyw newid a wnaed i gynlluniau gwariant neu ddyraniadau cyfalaf blaenorol.....47

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r gweithgareddau, y deilliannau a'r canlyniadau i wella seilwaith digidol a chynhwysiant fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y toriadau i gyllid y strategaeth ddigidol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a'r gyllideb cynhwysiant digidol. Dylai hyn gynnwys asesiad o.....47

- oblygiadau'r toriadau i'r cymunedau hynny sydd fwyaf mewn perygl o allgáu digidol, sy'n fwy dibynnol ar wasanaethau iechyd yn cael eu trawsnewid yn ddigidol, ac.....47
- effaith debygol y toriadau hyn ar anghydraddoldebau o ran mynediad pobl at wybodaeth iechyd a gwasanaethau teleiechyd.....47

2. Cyllid ar gyfer GIG Cymru

Trosolwg

- 10.** Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ragolygon ariannol y GIG yn 2024-25 fod “ymhlith y mwyaf heriol yr ydym erioed wedi'u hwynebu”.¹⁴
- 11.** Yn ôl y Gweinidog, mae'r heriau ariannol hyn, sydd, meddai, yn gyffredin i bob rhan o'r Deyrnas Unedig, yn ymwneud â nifer o ffactorau arwyddocaol:

- *yr her wrth reoli costau uwch ar ôl y pandemig, lle mae gwasanaethau newydd yn bodoli erbyn hyn, a lefelau staffio a chapasiti wedi cynyddu.*
- *pwysau chwyddiant ar draws pob maes, sydd y tu allan i reolaeth byrddau iechyd - er enghraifft, chwyddiant tâl a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â thâl, gan gynnwys costau meddyginiaethau a chostau cynyddol pecynnau gofal.*
- *galw cynyddol ar wasanaethau.*¹⁵

Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 12.** Mae'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru a chyllid ar gyfer iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant.
- 13.** Yn yr un modd â blynyddoedd ariannol blaenorol, y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi cael y dyraniad mwyaf yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Cyfanswm cyllid Terfyn Gwariant Adrannol ('DEL') refeniw a chyfalaf y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw £11.7 biliwn, sef bron i hanner (49.4%) y cyfanswm ar gyfer holl adrannau Llywodraeth Cymru. Noda Llywodraeth Cymru fod y:

*“ rhan fwyaf o hwnnw'n mynd yn uniongyrchol i ariannu'r GIG.”*¹⁶

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

¹⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: taflen

14. Yn ei thablau ategol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2024-25¹⁷ ochr yn ochr â'r cyllid yn ei Chyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24¹⁸ a'r dyraniadau cyllideb dangosol ar gyfer 2024-25 (sydd wedi eu cynnwys yng Nghyllideb Derfynol 2023-24). Mae'r naill a'r llall wedi eu hailddatgan yn dilyn newidiadau i gyfrifoldebau Gweinidogol.¹⁹

15. Mae'r rhain yn dangos cynnydd yng nghyllid DEL ar gyfer 2024-25, mewn termau arian parod (net):

- £928.8 miliwn neu 8.6% o gymharu â Chyllideb Derfynol 2023-24 wedi ei hailddatgan.²⁰ Mae hyn yn cyfateb i £736.0 miliwn neu 6.8% o gynnydd mewn termau real; a
- £677.6 miliwn neu 6.2% o gymharu â'r dyraniadau yn y gyllideb dangosol a ailddatganwyd ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn cyfateb i £484.8 miliwn neu 4.4% o gynnydd mewn termau real.

16. Nid yw'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r cyllid ychwanegol net ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a nodir yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2023-24,²¹ a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023. Roedd hon yn dangos £149 miliwn neu 1.4% o gynnydd yn y DEL o gymharu â Chyllideb Derfynol 2023-24.²² Nid ydynt ychwaith yn cynnwys y newidiadau yn niweddariad Llywodraeth Cymru ar Sefyllfa Ariannol 2023-24²³, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023, a ddyrannodd £425.1 miliwn yn ychwanegol i'r MEG²⁴.

Mwy o arian ar gyfer y GIG

17. Mae cyllid adnoddau ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb (neu 'BEL') 'Darparu Gwasanaethau GIG Craidd' yn cynyddu £971.3 miliwn (neu 10.2%) o gymharu â Chyllideb Derfynol 2023-24 wedi ei hailddatgan a £756.3 miliwn (neu 7.8%) o gymharu â'r gyllideb ddangosol a ailddatganwyd ar gyfer 2024-25.

18. Cyflawnwyd y cynnydd hwn drwy ailgyfeirio cyllid o bob rhan o Lywodraeth Cymru er mwyn darparu buddsoddiad ychwanegol yn y GIG. Ar y mater hwn, nododd y Gweinidog:

¹⁷ Cyllideb Ddrafft 2024-25

¹⁸ Cyllideb Derfynol 2023-24

¹⁹ Cyllideb Atodol 2023-24: Nodyn Esboniadol

²⁰ Ymchwil y Senedd, 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25'

²¹ Llywodraeth Cymru, 'Cyllideb Atodol Gyntaf 2023 i 2024'

²² Ymchwil y Senedd, 'Archwilio Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2023-24'

²³ Llywodraeth Cymru, 'Diweddariad ar sefyllfa ariannol 2023-2024: crynodeb o'r prif newidiadau'

²⁴ Ymchwil y Senedd, 'Mantoli'r cyfrifon: diweddariad ar Sefyllfa Ariannol 2023-24 Llywodraeth Cymru'

"(...) in this financial year [2023-24], we've had to go around the entire Cabinet table, who have made significant contributions to try and keep the wheels on the bus in relation to health. That's happened, again, effectively [in the draft budget]. That's been baselined into the next financial year. So, in all, there has been a significant increase going to health and social services."²⁵

19. Mae cyllid hefyd wedi ei drosglwyddo o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol "i helpu i wrthbwysu'r pwysau ychwanegol".²⁶ Nodir yn naratif y gyllideb ddrafft:

"Wrth flaenoriaethu cyllid i'r GIG, rydym wedi adolygu'r holl gyllidebau a ddelir yn ganolog mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac wedi ailgyfeirio cyllid o sawl maes. Mae'r rhain yn cynnwys cyllidebau camddefnyddio sylweddau."²⁷

20. Er gwaethaf hyn, roedd y Gweinidog yn glir y bydd angen o hyd i fyrddau Iechyd gydbwysu eu cyllidebau, yn y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn ariannol nesaf, ac y bydd hyn yn golygu eu bod yn wynebu penderfyniadau heriol.²⁸ Ychwanegodd:

"Mae pob bwrdd Iechyd yn wynebu heriau gwahanol o safbwynt angen y boblogaeth a chyfluniad gwasanaethau. Bydd y camau a gymerir i reoli unrhyw bwysau costau yn amrywio yn ôl sefydliad a byddant yn destun penderfyniad lleol."²⁹

21. Gofynnem i'r Gweinidog pa strategaethau penodol mae hi o'r farn y dylai byrddau Iechyd eu defnyddio i ymdopi o fewn eu cyllidebau unigol. Mewn ymateb, dywedodd wrthym fod angen iddynt 'sefydlogi' eu cyllid, a dywedodd mai dyna oedd y gofyniad allweddol iddynt eleni ac y byddai'n anodd yn wyneb galw enfawr am wasanaethau'r GIG.

²⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 10].

²⁶ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

²⁷ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

²⁸ Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2024, paragraff 10-11, a Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

²⁹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023

22. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi seilio arian i gyllideb y GIG mewn nifer o feysydd gwariant, fel COVID ac ynni, oedd wedi cael eu cadw ar wahân yn flaenorol. Y disgwyl, meddai, oedd y byddai byrddau iechyd yn awr yn rhoi hynny yn eu cyllidebau craidd.

23. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod yr ‘agenda gwerth ac effeithlonrwydd’ yn allweddol i gyflawni cyllidebau byrddau iechyd, yn ogystal â'r angen i fodloni rheolaethau targed ar gyfer eu diffygion a ragwelir, ac i gymryd camau i leihau eu gwariant a ragwelir 10% (tua £64 miliwn).³⁰

24. O ran tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau ar draws byrddau iechyd, dywedodd y Gweinidog mai mecanwaith allweddol oedd byrddau'r byrddau iechyd eu hunain; bod rôl bwysig hefyd i Weithrediaeth y GIG; a bod gan Llais, fel llais annibynnol cleifion, rôl i sicrhau bod llais y claf yn cael ei glywed.³¹

25. Fe wnaethom holi'r Gweinidog a oedd hi'n bwriadu darparu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i fyrddau iechyd. Mewn ymateb, dywedodd Hywel Jones, Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

“(...) in broad terms, for the next financial year, as a principle, we recognise that what we've allocated to health boards is the best funding that we can provide at this point, and we're looking for them to plan on that basis.”³²

Blaenoriaethu

26. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywed y Gweinidog:

“Wrth ail-lunio'r gyllideb ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25, rydym wedi ailflaenoriaethu'r gyllideb o bob rhan o'r Prif Grŵp Gwariant i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn y GIG.”³³

³⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

³¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 77]

³² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 88]

³³ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

27. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod hi wedi cyhoeddi Fframwaith Cynllunio'r GIG yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf i fyrddau iechyd ar 18 Rhagfyr, a fydd yn cael ei ddefnyddio ganddynt i lunio eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i'w cymeradwyo gan Weinidogion. Dywedodd bod y Fframwaith hwnnw'n cynnwys arweiniad clir iawn o'r meysydd mae Llywodraeth Cymru yn dymuno canolbwyntio arnynt, gan gynnwys sefydlogi eu sefyllfaoedd (fel byrddau iechyd), cynyddu effeithlonrwydd a lleihau gwastraff ac amrywiadau.³⁴ Dywedodd wrthym mai'r meysydd blaenoriaeth eraill i Lywodraeth Cymru sydd wedi eu cynnwys yn y Fframwaith yw:

"reducing inequalities and improved outcomes; delivering improvements against 'A Healthier Wales', (...); looking at transformation and innovation in the design and delivery of pathways; strengthening primary and community care; looking further at accelerated cluster developments and enhanced community care, (...) making sure that there's real focus on quality and safety; and a real focus on women and children (...)"³⁵

28. Dywedodd bod rhai rhaglenni cenedlaethol hefyd lle'r oedd Llywodraeth Cymru yn 'disgwyl newid', gan gynnwys gofal brys a gofal mewn argyfwng, gofal wedi ei gynllunio, canser, iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc.³⁶ Cytunodd y Gweinidog i ddarparu copi o'r Fframwaith Cynllunio i'r Pwyllgor.

29. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at fwrdd gwerth a chynaliadwyedd³⁷, a dywedodd ei fod wedi:

"set up with officials, but driven by the NHS chief executive officer, where all of the chief executives come around the table to drive value and sustainability".³⁸

Ein barn ni

30. Unwaith eto, cefndir cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yw un o amodau ariannol hynod anodd. Mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn parhau i

³⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraffau 13, 17]

³⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 9]

³⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 9]

³⁷ Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru, a elwid gynt yn Grŵp Defnyddio Adnoddau.

³⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 17]

deimlo effeithiau triphlyg y pandemig, chwyddiant a chostau ynni uchel, a hefyd yn parhau i ddelio â'r galw enfawr - a chynyddol - am wasanaethau ochr yn ochr ag ôl-groniad amseroedd aros a phroblemau hirsefydlog o ran y gweithlu.

31. Dyma flwyddyn olaf y cyfnod gwario 3 blynedd a amlinellwyd yng nghyllideb 2022-23. Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis blaenoriaethu gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen yn y meysydd hyn ac, fel y gwnaeth y Gweinidog yn glir, mae hyn wedi golygu aberth sylweddol ar draws adrannau eraill y llywodraeth.

32. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae byrddau iechyd yn dal i wynebu penderfyniadau caled ynghylch sut i gynllunio a darparu gwasanaethau i'w priod boblogaethau, tra hefyd yn gweithredu i leihau eu gwariant a ragwelir 10 y cant, tua £64 miliwn.

33. Nodwn fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at fyrddau iechyd yn amlinellu ei blaenoriaethau fel rhan o'u proses gynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig. Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft y llynedd, dywedasom y byddai'n well yn y dyfodol pe bai'r Gweinidog yn rhannu a chyhoeddi manylion rhagweithiol am y blaenoriaethau mae'n eu rhoi i fyrddau iechyd fel rhan o'u paratodau ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig. Rydym yn ddiolchgar bod y Gweinidog wedi cytuno i rannu'r manylion hyn â ni eto eleni, ac edrychwn ymlaen at eu cael. Fodd bynnag, nodwn nad ydynt wedi eu cyhoeddi hyd yn hyn. Byddai hefyd wedi bod yn ddefnyddiol cael yr wybodaeth hon cyn y sesiwn dystiolaeth lafar.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi copi o'r llythyr a gyhoeddodd i'r Byrddau Iechyd ym mis Rhagfyr 2023 i'w ddefnyddio wrth baratoi eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig priodol. Lle bo'n berthnasol, dylai wneud hyn yn flynyddol, ochr yn ochr â chyhoeddi dogfennau cyllideb ddrafft eraill Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda byrddau iechyd am ei blaenoriaethau ar gyfer eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-25.

34. Mewn perthynas â'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, nodwn fod hyn wedi ei ailfframio o'r Grŵp Defnyddio Adnoddau blaenorol, ond mai ei ddiben craidd o hyd yw sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a darparu effeithlonrwydd yn gyson. Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ddiwethaf, dywedasom y bydd angen aros i weld a fyddai mesurau fel hyn yn

llwyddo, a byddai gennym ddiddordeb mewn gweld tystiolaeth o newidiadau sydd wedi deillio o waith y Bwrdd.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi diweddariad blynyddol, cyn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, am waith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, yr arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod hwnnw, a'r cyfleoedd pellach y mae wedi eu nodi i ategu gwelliant ariannol.

35. Yn ehangach, yn ei hymateb i'n hadroddiad ar y gyllideb y llynedd, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod tri bwrdd iechyd mewn lefelau uwch o uwchgyfeirio oherwydd eu sefyllfa ariannol, ac roedd tri arall yn rhagweld na fyddent yn sicrhau cydbwysedd ariannol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol honno. Aeth ymlaen i ddweud, yn y cyd-destun hwn, ei bod yn debygol na fyddai'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd yn gallu cyflwyno cynllun tymor canolig integredig cytbwys i'w gymeradwyo.

36. Yn y cyfnod a gwmpesir gan y gyllideb ddrafft sydd o'n blaenau, h.y. 2024-25, mae pob un o'r saith bwrdd iechyd bellach yn cael eu hunain mewn lefelau uwch o uwchgyfeirio yn ymwneud â'u sefyllfa ariannol. O ystyried y pwysau ariannol eithriadol sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, nid yw'n glir sut bydd byrddau iechyd yn gallu bodloni gofyniad allweddol y Gweinidog o sefydlogi eu cyllid, gan hefyd ymateb i'r galw digynsail am wasanaethau a lleihau eu gwariant a ragwelir 10 y cant. Yn yr un modd â'r llynedd, rydym yn parhau i bryderu a oes gan Lywodraeth Cymru y capasiti sydd ei angen i weithio gyda phob bwrdd iechyd i ddarparu'r cymorth a'r oruchwyliaeth sydd eu hangen.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion am sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn gallu sefydlogi eu cyllid o fewn cylch cynllunio tymor canolig integredig 2024-25 i 2026-27. Dylai hyn gynnwys amserlenni clir o ran lle mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd pob bwrdd iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, a sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro.

3. Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

37. Mae'r Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth leol yn darparu cyllid craidd i awdurdodau lleol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

38. Yn naratif y gyllideb, dywed Llywodraeth Cymru ei bod hi wedi ymrwymo i gynnal y Setliad Llywodraeth Leol ar 3.1%, gyda chyfanswm cyfraniad cyllid craidd o £5.7 biliwn. Mae'n dweud ei fod yn darparu £1.3 miliwn drwy'r Grant Cynnal Refeniw i sicrhau nad yw'r un awdurdod yn cael llai na 2% o gynnydd yn ei setliad:

*"Mae diogelu'r cyllidebau hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd hanfodol ein partneriaid Llywodraeth Leol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol rheng flaen, gan gynnwys mewn dau o'u meysydd gwasanaeth mwyaf - sef ysgolion a gofal cymdeithasol."*³⁹

39. Yn ôl papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, mae 66% o adnoddau awdurdodau lleol yn cael eu cyfeirio at addysg a gwasanaethau cymdeithasol.⁴⁰

40. Dywed Llywodraeth Cymru mai ei nod yw diogelu, cyn belled â phosibl, y cyllid craidd ar gyfer ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, casgliadau biniau a gwasanaethau hamdden lleol. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y pwysau sydd ar wasanaethau cyhoeddus ac yn dweud y bydd angen i gynghorau wneud dewisiadau anodd.

Pwysau ar ofal cymdeithasol

41. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi dweud bod cynghorau yn wynebu'r lefelau uchaf erioed o alw am wasanaethau gofal cymdeithasol, sydd wedi arwain at £108.7 miliwn o orwariant eleni. Maent yn rhagweld y bydd angen £646 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf i gau'r bwlch. Dywed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod effeithiau'r bwch cyllido mae cynghorau yn ei

³⁹ Llywodraeth Cymru. Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi. Rhagfyr 2023

⁴⁰ Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

wynebu yn debygol o fod yn ddwys ar gymunedau ac ar wasanaethau hanfodol fel ysgolion a gofal cymdeithasol.⁴¹

42. Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae gofal cymdeithasol wedi bod yn gyfrifol am 50% o'r gorwariant cyffredinol mewn awdurdodau lleol, gyda gofal plant cost uchel a galw cynyddol am ofal cymdeithasol oedolion yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r costau afreolus. Mae'n nodi bod chwyddiant yn cyfri am ychydig dros draean o'r gorwariant a ragwelir (tua £72 miliwn), ond mae llawer o'r pwysau yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i alw digynsail am wasanaethau.⁴²

43. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y gorwariant ar wasanaethau cymdeithasol yn £93 miliwn yn 2022-23, £108.7 miliwn yn 2023-24 a disgrifiodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru heriau ariannol sylweddol, sy'n parhau i 2024-25. Fe wnaethant gyfrifo y bydd £261 miliwn o bwysau ariannol ar ofal cymdeithasol yn 2024-25. Mae hyn yn cyfateb i 11.3% o gynnydd ar y cyllidebau presennol.⁴³

44. Dywed Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod y nifer cynyddol o bobl sydd angen gofal a chymorth yn creu pwysau anghynaliadwy o ran cyllid a galw ar wasanaethau. Amlygodd ffioedd cynyddol fel mater penodol, er enghraifft:

“One local authority identifies that residential and nursing homes are seeking a rise in fees of around 20% and another has experienced roughly a 10% increase in fees in each of the last two years.”⁴⁴

45. Gofynnem i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sut roedd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cyfri am y lefelau uchaf erioed o alw am ofal cymdeithasol, a'r hyn yr oedd hi'n ei ragweld oedd effaith y bwlch cyllido ar wasanaethau.

46. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn darparu £5.7 biliwn i awdurdodau lleol yn y gyllideb ddrafft; 3.1% o gynnydd mewn cyllid

⁴¹ @WelshLGA, 19 Rhagfyr 2023

⁴² Y Pwyllgor Cyllid, WGDB_24-25 50, Ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, WGDB_24-25 51, Ymateb gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, WGDB_24-25 51, Ymateb gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

refeniw craidd. Er hyn, dywedodd ei bod yn cydnabod y penderfyniadau anodd sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau, ond bod:

*"(...) local authorities are accountable and responsible to their electorate, and they will have to take account of the full range of pressures that they have within each local authority. So, obviously, what they do is a decision, then, for them."*⁴⁵

47. Yn ogystal, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol fod ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i gynyddu'r cap ar daliadau am ofal cartref:

"I think it's important to note that the maximum charge, notwithstanding inflation and other factors, hasn't increased from a £100 per person as a cap per week since 2020. And in contrast, local authorities have seen very big increases in terms of care levels, of demands for service, and all the additional costs, with energy and the cost-of-living issues. And this is something that the local authorities have asked for us to do, to raise the cap.

*We as a Government have got to work out how we can ensure that care can be sustained in the communities, and this is one of the areas that we're reluctantly having to look at. And we broadly estimate that a £10 increase would have the potential to raise up to £4.8 million in revenue."*⁴⁶

48. Dywedodd y byddai unrhyw newid yn y maes hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.⁴⁷

49. Fe wnaethom holi'r Gweinidog am bryderon a godwyd gan Anabledd Cymru am effaith pwysau costau byw a chynnydd posibl mewn taliadau gofal cartref ar bobl anabl. Dywedodd Anabledd Cymru ei bod wedi clywed gan bobl anabl sydd wedi profi costau uwch, gan olygu nad oeddent yn gallu fforddio eu gofal neu eu bod wedi gorfod torri oriau gofal.

50. Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol:

⁴⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 96]

⁴⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 210]

⁴⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 210]

"(...) we're aware, in this cost-of-living crisis, that disabled people is one group that's usually disproportionately affected by such a crisis, and we want to do all we can to help.

We are involved in all the different forums with Disability Wales and the disability rights taskforce, so all our officials are part of that. So, we are very well aware of the issues that they are raising, and I believe that recommendations are going to be made soon from one of these groups about what things can be done to help."⁴⁸

Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

- 51.** Gofynnwn ai sefydlu Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth newydd, ynghyd â'i chostau cysylltiedig, oedd y defnydd gorau o adnoddau ar hyn o bryd.
- 52.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol bod gwariant ar y Swyddfa Genedlaethol yn gymharol fach oherwydd bod cyflogau staff eisoes wedi eu cynnwys yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Dywedodd:

"In terms of developing our social care, in terms of our transformation agenda, in terms of trying to turn things around, we need that national office to take it forward, and I think it would ultimately be counterproductive not to recognise the benefits that this national office would bring. So, yes, we did look at it, but we decided it was too important in terms of our longer term plans."⁴⁹

Taliadau am wasanaethau eraill

- 53.** Nodir yn naratif y gyllideb ddrafft, yng ngoleuni pwysau ariannol, bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i godi taliadau am amrywiaeth o wasanaethau:

Mae pobl yng Nghymru eisoes yn talu ffioedd am ystod o wasanaethau, gan gynnwys gofal deintyddol y GIG, gofal cartref a ffioedd dysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r rhain wedi'u pennu ar lefel is nag yn Lloegr ac mae ystod o esemptiadau ar gael i bobl ar

⁴⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 220]

⁴⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 265]

incwm isel ac i'r rhai sydd ar fudd-daliadau. Os penderfynwn gynyddu costau, caiff cynigion eu cyflwyno at ddibenion ymgynghori.⁵⁰

54. Gofynnem i'r Gweinidog pa effaith fyddai cynyddu taliadau deintyddol yn ei chael ar allu cleifion i gael mynediad at wasanaethau. Dywedodd bod system prawf modd eisoes ar waith ar gyfer codi tâl, fel nad yw'r rhai nad ydynt yn gallu talu am waith deintyddol yn gorfod talu.⁵¹ Aeth ymlaen i ddweud bod y costau yn Lloegr gryn dipyn yn uwch na Chymru:

"I think it's probably worth looking at the difference between what we charge in Wales compared to what was charged in England, in relation to dental care. Look, we don't want to do any of this (...) but we are in a position where we do have to look at every possible avenue, to see how we can increase revenue."⁵²

Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal

55. Yn ei thystiolaeth, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol at agenda Llywodraeth Cymru i ddileu elw, a dywedodd bod hynny'n cynnwys ymrwymiad ariannol o £20 miliwn yn y gyllideb ddrafft i gyrraedd plant yn gynharach a helpu i sicrhau, os oes rhaid rhoi plant mewn gofal, y gellir darparu hyn yn nes at adref. Bydd hyn, meddai, yn y pen draw yn arwain at awdurdodau lleol yn gwario llai o arian ar ofal drud i blant sy'n aml yn gallu bod y tu allan i ardal eu hawdurdod lleol, neu y tu allan i Gymru.⁵³

56. Aeth ymlaen i ddweud:

"Young people have told us that they don't want to be placed in services where people profit (...)

I'm sure you're aware of the thousands of pounds per week that is spent on young people who are being placed in private sector

⁵⁰ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi. Rhagfyr 2023

⁵¹ Mae triniaeth ddeintyddol am ddim ar gael i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau penodol (neu y mae eu partner yn derbyn y budd-daliadau hynny), sydd ar incwm isel, neu sydd â hawl i gael tystysgrif eithrio credyd treth y GIG ddilys neu sydd wedi eu henwi ar y dystysgrif honno. Mae manylion llawn am yr hawl i gael archwiliadau a thriniaeth ddeintyddol am ddim gan y GIG ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

⁵² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 204]

⁵³ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 97]

placements, some of which may be very good, but it is a huge drain on the resources. And when we go round local authorities, they say that children's social services are one of the biggest drains on what they have to pay out. So it is a prudent policy, as well as one that we think will result in better outcomes for children."⁵⁴

Gofalwyr di-dâl

57. Mae cyllid i gefnogi gofalwyr di-dâl ar gael o nifer o wahanol ffynonellau. Defnyddir y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol, yn rhannol, i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl. Mae'n cyllido'r Cynllun Seibiant Byr, a osodwyd ar £3.5 miliwn yn 2024-25, sy'n rhoi cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant. Yn ogystal, mae'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr yn cynorthwyo gofalwyr di-dâl i ymdopi â chostau byw cynyddol drwy wneud grantiau bach i ofalwyr di-dâl ar gyfer eitemau hanfodol sylfaenol, fel bwyd, eitemau cartref ac electronig, neu fynediad at gyngor neu gwnsela.⁵⁵ Mae cyllid hefyd ar gael drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Cynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

58. Nodir ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru nad oes cyllid ychwanegol i alluogi ehangu cymorth ariannol/cynlluniau newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl.⁵⁶

59. Mae hefyd yn cadarnhau na fydd y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol yn cael y codiad arfaethedig gwreiddiol o £5 miliwn, ond bydd yn parhau ar £52 miliwn ar gyfer 2024-25. Dywed fod swyddogion yn gweithio i ddiogelu gwariant sy'n ymwneud â gwasanaethau er mwyn osgoi neu leihau'r effaith bosibl o ran llai o wasanaethau a allai effeithio ar bobl anabl a phobl hŷn, ac aelodau mwyaf bregus cymdeithas.

60. Fe wnaethom holi'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am effaith y gyllideb ddrafft ar ofal seibiant, o ystyried na fydd cyllid ychwanegol i ehangu'r cymorth ariannol i ofalwyr di-dâl. Cadarnhaodd nad oedd lleihad yn y cyllid ar gyfer y cynllun seibiannau byr, a dywedodd mai'r bwriad oedd sicrhau bod 30,000 o ofalwyr ychwanegol yn cymryd hoe o ofalu erbyn 2025.⁵⁷

61. Yn benodol mewn perthynas â gofalwyr ifanc, dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i

⁵⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 114]

⁵⁵ Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

⁵⁶ Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

⁵⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 105]

barhau i ddarparu cyllid ar gyfer yr ŵyl gofalwyr ifanc y flwyddyn nesaf oherwydd yr hwb enfawr mae'n ei roi.⁵⁸

Ein barn ni

62. Mae sôn y bydd bwlch ariannol o £646 miliwn a adroddwyd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol dros y tair blynedd nesaf. Mae angen i ni ddeall yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hynny. Mae pwysau chwyddiant, ffioedd cynyddol a galw sy'n cynyddu'n barhaus am wasanaethau yn rhoi straen enfawr ar y system a fydd, fel mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau anodd.

63. Rydym yn cydnabod dadl y Dirprwy Weinidog bod penderfyniadau ynghylch sut mae'r setliad hwnnw'n cael ei wario yn fater i awdurdodau lleol unigol sy'n atebol i'w hetholwyr eu hunain. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, byddai'n annheg peidio â chydabod hefyd, er bod awdurdodau lleol o dan ddyletswydd statudol i ddarparu rhai gwasanaethau, eu bod hefyd eisiau cynnal y gwasanaethau cymunedol mae cymaint yn dibynnu arnynt, gan gynnwys pobl anabl, pobl hŷn a gofalwyr. Fel mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi dweud, nid yw gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol wedi cael rhagor o gymorth cyllidebol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, yn wahanol i fyrddau iechyd.⁵⁹

64. O ystyried y pwysau difrifol a wynebir gan y sector, hoffem gael sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod pawb sydd angen gofal a chymorth yn gallu cael gafael arnynt yn deg.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau nad yw pwysau cyllidebol yn arwain at wrthod gwasanaethau i bobl sy'n gymwys i gael gofal a chymorth.

65. Nodwn, mewn ymateb i gostau afreolus gofal cymdeithasol, a cheisiadau gan awdurdodau lleol, fod Llywodraeth Cymru yn ystyried codi'r cap ar daliadau am ofal cartref, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio drwy oblygiadau hyn.

⁵⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 107].

⁵⁹ Pwyllgor Cyllid, WGDB_24-25 51, Ymateb gan Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

66. Rydym yn pryderu am effaith unrhyw gynnydd yn y cap ar daliadau ar allu unigolion i fforddio eu gofal eu hunain, neu i orfod cwtogi eu horiau gofal, yn enwedig i'r rhai sydd fwyaf agored i anghydraddoldebau. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cyhoeddiadau yn y maes hwn, ac yn gofyn i hyn gael ei wneud yn yr ymateb i'r adroddiad hwn.

Argymhelliad 6. Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cyhoeddiadau sy'n ymwneud â chynyddu'r cap ar daliadau am ofal cartref.

67. Mewn perthynas â chynyddu taliadau am wasanaethau eraill, nodwn fod hyn yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ac, unwaith eto, rydym yn pryderu am effaith unrhyw gynnydd ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion i ni am yr holl feysydd lle mae'n ystyried cynyddu taliadau am ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys yr arian tebygol a fyddai'n cael ei gynhyrchu ac amserlenni dangosol ar gyfer cynigion.

68. Rydym yn rhannu pryder Anabledd Cymru ynghylch y caledi ariannol mae pobl anabl yn ei wynebu. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Dirprwy Weinidog o'r anawsterau penodol mae pobl anabl yn eu hwynebu o ganlyniad i bwysau costau byw. Deallwn fod y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael argymhelliad gan weithgor y Tasglu Hawliau Anabledd ar Fyw'n Annibynnol: Gofal cymdeithasol. Hoffem gael rhagor o wybodaeth am hyn.⁶⁰

Argymhelliad 8. Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion am ganfyddiadau gweithgor y Tasglu Hawliau Anabledd ar Fyw'n Annibynnol: Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru a'r ymateb; sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r argymhellion, a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny.

69. Mewn perthynas ag agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, nodwn y bydd hyn yn destun deddfwriaeth sydd i ddod ac, os caiff y Bil ei gyfeirio atom, byddwn yn archwilio'r polisi a'r manylion ariannol bryd hynny.

⁶⁰ **Datganiad Ysgrifenedig: Y diweddaraf am y Tasglu Hawliau Pobl Anabl (5 Hydref 2023) | LLYW.CYMRU**

70. Fel pwyllgor, rydym wedi cydnabod yn gyson y rôl hanfodol a chwaraeir gan ofalwyr di-dâl o ran cynorthwyo ffrindiau ac aelodau o'r teulu. Hebddynt, byddai gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu llethu. Gan hynny, mae hi mor bwysig bod gofalwyr eu hunain yn cael yr help a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i barhau i ofalu am eraill. O'r herwydd, roeddem yn falch o glywed na fydd cyllid ar gyfer y Cynllun Seibiannau Byr yn cael ei leihau y flwyddyn nesaf, ac y bydd cyllid i gefnogi gŵyl flynyddol y gofalwyr ifanc hefyd yn cael ei gynnal.

71. Fodd bynnag, heb arian ychwanegol i ehangu cymorth ariannol na chynlluniau newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl, rydym yn parhau i bryderu na fydd lefel y cyllid a ddyrennir yn ddigon i ateb y galw a chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, ac i liniaru'r toriadau tebygol i wasanaethau dydd yn y gymuned.

Argymhelliad 9. Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion asesiad Llywodraeth Cymru o lefel y galw am ofal seibiant ledled Cymru a'r cyllid y byddai ei angen i ddiwallu anghenion yr holl ofalwyr di-dâl.

4. Adfer amseroedd aros

72. Fis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Adfer Gofal Wedi ei Gynllunio i drawsnewid a moderneiddio gofal wedi ei gynllunio, a lleihau rhestrau aros.⁶¹ Mae'r cynllun yn cynnwys pum uchelgais allweddol ar gyfer lleihau rhestrau aros.⁶² Dywedir yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r buddsoddiad ychwanegol blynyddol o £170 miliwn i GIG Cymru i gynorthwyo'r cynllun, ac y bydd hyn yn cael ei neilltuo o fewn prif ddyraniad y GIG.

73. Ymhellach, dywed, ers i'r cynllun gael ei gyhoeddi a bod y buddsoddiad ychwanegol wedi ei ddarparu, y bu gostyngiadau misol olynol yn nifer y llwybrau cleifion agored sy'n aros dros 104 wythnos.

74. Mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn heriol, fodd bynnag. Mae adroddiad monitro diweddaraf y Pwyllgor yn amlygu bod y niferoedd sy'n aros dros ddwy flynedd yn gostwng ond bod cyflymder yr adferiad yn arafach na'r disgwyl.⁶³ Dileu achosion o bobl yn aros am fwy na dwy flynedd ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023 yw'r nod. Ym mis Hydref 2023, roedd dros 25,000 o lwybrau cleifion yn dal i aros mwy na dwy flynedd i ddechrau triniaeth.

75. Mae ein hadroddiad monitro hefyd yn amlygu bod perfformiad o ran y targed llwybr canser sengl⁶⁴ yn parhau i fod yn wael. Mae ffigurau gweithgarwch a pherfformiad diweddaraf y GIG yn dangos, ym mis Tachwedd 2023, mai dim ond 53.5 y cant o lwybrau cleifion a gydymffurfiodd â'r targed.⁶⁵

76. Dywedir ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru bod £50 miliwn o'r dyraniad o £170 miliwn wedi ei gadw yn 2023-24 i gynorthwyo modelau darparu rhanbarthol, tymor hwy a bod hwn yn cael ei ddyrannu ar sail reolaidd wedi ei glustnodi, gan arwain at ddyrannu'r £170 miliwn llawn i Fyrddau Iechyd ar sail sydd wedi ei glustnodi'n rheolaidd.⁶⁶

77. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog ei bod yn 'rhwystredig' nad oedd y targedau wedi eu cyrraedd a chyfeiriodd at yr ôl-groniad 'enfawr' sydd

⁶¹ [Trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros y GIG](#), Llywodraeth Cymru, Ebrill 2022

⁶² Cyhoeddir adroddiadau monitro tymhorol sy'n olrhain cynnydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum uchelgais allweddol ar [ein gwefan](#).

⁶³ [Amseroedd aros y GIG - adroddiad monitro Tachwedd 2023](#)

⁶⁴ 75% i ddechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod

⁶⁵ Llywodraeth Cymru, [Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Tachwedd ac Rhagfyr 2023](#)

⁶⁶ Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

wedi cronni ers y pandemig. Dywedodd hefyd bod nifer y bobl sydd ar restrau aros yn 'anhygoel'. Dywedodd Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Nick Wood, wrthym:

"In the period between [April 2022 and] now (...) we've seen 2.3 million referrals onto waiting lists (...) and the rate of referral continues to increase.

*We're seeing, on average, an increase of about 20,000 patients per month compared to pre-pandemic levels (...) So, that's a very challenging position."*⁶⁷

78. Eglurodd fod y Cynllun Adfer yn ceisio cynyddu gweithgarwch i lefelau o 110 y cant o gymharu â chyn y pandemig, h.y. 10 y cant o gynnydd ar lefelau gweithgarwch 2019-20, a fyddai wedi galluogi gostyngiad mewn amseroedd aros. Fodd bynnag, yn y cyfnod hwnnw, dywedodd fod gweithgarwch cleifion allanol wedi cynyddu tua 12 y cant, ac mae gweithgarwch theatrau yn dal 6 y cant yn is na niferoedd 2019-20. Dyna, meddai, oedd gwraidd y mater, ac roedd nifer o resymau am hynny, gan gynnwys cynhyrchiant, argaeledd staff ac anghenion newidiol cleifion.

79. Dywedodd, er bod cynnydd wedi bod o ran lleihau amseroedd aros, nid oedd hyn ar y lefel yr oeddent wedi ei ddisgwyl, a:

*"the challenge now with the budget position is how we utilise the budget that we've got to really drive productivity."*⁶⁸

80. Ar y pwynt hwn, fe wnaethom bwyso ar y Gweinidog i ddweud i ba raddau roedd yr heriau o ran amseroedd aros yn gysylltiedig â materion cyllidebol. Cydnabu'r Gweinidog fod staffio yn agwedd heriol ar leihau amseroedd aros. O'r herwydd, meddai, roedd angen parhau i fuddsoddi mewn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf, gan dynnu sylw at y ffaith nad oedd y gyllideb hyfforddi wedi ei thorri.

81. Tynnodd sylw hefyd at y canolfannau dewisol naill ai ar waith neu'n cael eu cynllunio ledled Cymru, gan ddweud y byddai'r dull rhanbarthol yn helpu cynhyrchiant.⁶⁹

⁶⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 62]

⁶⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraffau 62-66]

82. Cyfeiriodd Nick Wood at effaith chwyddiant, gan olygu bod y gwasanaeth iechyd yn cael llai o werth am ein punt o ran nifer y gweithdrefnau y gallwn ni eu gwneud.⁷⁰ Dywedodd:

“What we need to do is make what we've got more productive.”⁷¹

Ein barn ni

83. Mae'n amlwg bod amseroedd aros yn fater o flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd, ac rydym yn croesawu'r ymdrechion a'r cynnydd a wnaed hyd yma. Ond, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a glywsom bod maint yr her yn enfawr o hyd, gyda niferoedd sylweddol o bobl yn cael eu hychwanegu at restrau aros bob mis, materion parhaus yn ymwneud â'r gweithlu, pwysau chwyddiant a'r problemau sy'n gysylltiedig â gweithredu o fewn ystâd sy'n heneiddio.

84. Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol o £170 miliwn y flwyddyn ar gyfer adferiad gofal wedi ei gynllunio, ni chyrhaeddwyd targedau i leihau arosiadau cleifion allanol i lai na 52 wythnos, ac i ddileu achosion o bobl yn aros mwy na dwy flynedd i ddechrau triniaeth. Hoffem glywed ymhellach gan y Gweinidog ynghylch pryd mae'n rhagweld y bydd y targedau hyn yn cael eu cyrraedd.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi pryd mae'n disgwyl i dargedau ar gyfer lleihau arosiadau cleifion allanol a dileu achosion o arosiadau dwy flynedd am driniaeth gael eu cyflawni.

85. O ran gwella cynhyrchiant, roeddem yn falch o glywed bod cyfleoedd ar gyfer gweithio rhanbarthol yn cael eu dilyn, gan gynnwys drwy ddefnyddio canolfannau dewisol. Fel mae'r Gweinidog yn ei nodi, fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am gyllid, ac mae hwnnw'n brin. Rydym hefyd yn aneglur ynghylch yr amserlenni ar gyfer cynnydd yn y maes hwn. Er ein bod ni'n parhau i fonitro cynnydd gydag amseroedd aros fel rhan o'n hadroddiad monitro rheolaidd, byddem yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch datblygu'r hybiau rhanbarthol.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad hybiau rhanbarthol ledled Cymru, gan gynnwys amserlenni, y buddsoddiad sydd ei angen ac sydd ar gael i gefnogi eu datblygiad, a'r effaith y disgwylir i'r gwaith hwn ei chael ar leihau rhestrau aros.

⁶⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 70]

⁷⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 68]

⁷¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 68]

86. Fel y dywedasom eisoes, mae amseroedd aros canser yng Nghymru ymhlith y gwaethaf y buont erioed; Mae hyn yn destun pryder mawr i ni. Yn anffodus, ni chawsom amser yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog i drafod y mater hwn, a byddem felly'n ddiolchgar pe bai modd iddi fynd i'r afael ag ef yn ei hymateb i'r adroddiad hwn.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi sut bydd y gyllideb hon yn cyfrannu at ganlyniadau canser gwell i gleifion ledled Cymru.

5. Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

87. Dywedir ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd, y bydd yn parhau i fuddsoddi yng nghynaliadwyedd gweithlu'r GIG.

88. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y gweithlu'n her, nid yn unig yng Nghymru, ond yn fyd-eang. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi cyfrifo y bydd prinder o 10 miliwn o weithwyr iechyd erbyn 2030⁷².

Cyflog meddygon iau

89. Ar 15 Ionawr 2024, dechreuodd meddygon iau yng Nghymru ar streic 72 awr mewn ymateb i ddyfarniad cyflog arfaethedig Llywodraeth Cymru.

90. Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd y Gweinidog ei bod wedi cytuno i weithredu dyfarniad cyflog o 5 y cant ar gyfer 2023/24 i'r rhai a gyflogir yn y GIG ar delerau ac amodau meddygol a deintyddol⁷³. Dywedodd bod y cynnig dyfarniad cyflog hwn ar derfynau'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ac, heb gyllid ychwanegol gan lywodraeth y Deyrnas Unedig, nad oedd hi mewn sefyllfa ar hyn o bryd i wneud cynnig uwch. Nododd fod meddygon iau yn Lloegr wedi derbyn cynnydd o 2% yn y flwyddyn flaenorol, tra bod meddygon iau yng Nghymru wedi derbyn 6% yn ogystal â thaliad untro ychwanegol o 1.5%.

91. Eleni, mae GIG Lloegr wedi cynnig 6 y cant o godiad⁷⁴. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu canfod a fydd hyn yn cael ei gyllido o gyllideb ganolog, ac os felly byddai gan Gymru hawl i gyllid canlyniadol ychwanegol, ynteu o fewn y gyllideb iechyd bresennol ar gyfer Lloegr, a fyddai'n golygu na fyddai cyllid ychwanegol o'r fath. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y diffyg tryloywder hwn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i Lywodraeth Cymru gynllunio'n effeithiol.

92. Fe wnaethom bwysu ar y Gweinidog ynghylch yr ymdrechion a oedd yn cael eu gwneud i egluro'r mater hwn gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Dywedodd Hywel Jones, Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrthym:

⁷² Sefydliad Iechyd y Byd: Gweithlu gofal iechyd

⁷³ Dyfarniad Cyflog y GIG i Staff Meddygol a Deintyddol ar gyfer 2023/2024, Awst 2023

⁷⁴ Gwrthodwyd y cynnig hwn gan y BMA ar 25 Ionawr 2024 ar ôl cynnal pleidlais ymysg ei haelodau.

"They are questions that officials are constantly asking their counterparts, myself directly with mine, Treasury colleagues and so on, but at this stage there is no clarity."⁷⁵

93. Aeth ymlaen i ddweud bod ei gymheiriaid yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud wrtho mai ffynhonnell yr arian oedd:

"... part of a number of assumptions that England are working through in terms of the NHS position this year, and clarity will follow in terms of second supplementary budgets and other processes."⁷⁶

94. Fe wnaethom bwysu ar y Gweinidog ynghylch ai'r codiad o 5 y cant oedd ei chynnig olaf. Mewn ymateb, dywedodd:

"We don't have any more money. (...) So, any thought about going further than that would obviously mean even deeper cuts than what we've had to go into so far, and the alternative, of course, would be to cut within the Welsh health service, and I don't think anybody would thank us for that, with the pressures on the services at the moment."⁷⁷

95. Gofynnwyd i'r Gweinidog am ffigyrau ar gost cynyddu'r cynnig 1 y cant. Cytunodd i ddarparu'r wybodaeth hon ond roedd hi'n glir na fuasai hynny'n gynnig y buasant yn ei wneud.⁷⁸ Ymhellach, dywedodd y Gweinidog nad mater o gynyddu'r cynnig i feddygon iau yn unig oedd hwn:

"(...) can I just make it clear (...) that (...) 5 per cent is what has been offered to everybody across the NHS in Wales, in terms of 'Agenda for Change', and that has been accepted (...). So, once you start saying, 'No, we're going to offer 6 per cent for this,' you can be damn sure that other parts of the Welsh NHS will say, 'Well, what about us?'"⁷⁹

⁷⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 26]

⁷⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 28]

⁷⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 47]

⁷⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 57]

⁷⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 51]

96. Dywedodd nad oedd yr arian ar gael ar hyn o bryd, er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio tuag at adfer cyflogau.⁸⁰

Defnyddio staff asiantaeth

97. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod lleihau gwariant ar staff asiantaeth yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Dywedodd bod gweithgor wedi ei sefydlu gan Weithrediaeth y GIG i ganolbwyntio'n benodol ar y mater a bod cynnydd yn cael ei wneud.

98. Cadarnhaodd Hywel Jones, Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y rhagwelir £266 miliwn o wariant yn y flwyddyn ariannol hon; £59 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â £325 miliwn o wariant yn 2023-24.

99. Gofynnem i'r Gweinidog faint o'r gwariant ar staff asiantaethau dros y ddwy flynedd ddiwethaf oedd yn cynrychioli elw i gwmnïau preifat. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r manylion hynny.⁸¹

100. Gofynnem hefyd a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn yr un modd i leihau'r ddibyniaeth ar feddygon locwm ac, os felly, a allem ddisgwyl gweld gostyngiad yn y gwariant yn y maes hwn. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn awyddus i weld gostyngiad yn y gwariant hwnnw.⁸² Ychwanegodd Hywel Jones:

"(...) the only thing that I would balance in response is clearly there are instances where having a flexible workforce is really positive, so there will always be a requirement for a locum medical workforce."⁸³

Lleoedd hyfforddi

101. Nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru bod £281.98 miliwn wedi ei fuddsoddi i gynorthwyo rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru yn 2023-24 a byddai'r lefel hon o gyllid yn cael ei chynnal ar gyfer 2024-25.

102. Fodd bynnag, ar 20 Rhagfyr 2023, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wrth y Pwyllgor Cyllid, er mwyn rhyddhau cyllid ar gyfer

⁸⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 55]

⁸¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 158]

⁸² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 156]

⁸³ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 159]

gwasanaethau rheng flaen, fod y gyllideb addysg a hyfforddiant yn cael ei chadw'n wastad ar gyfer 2024-25, a fyddai'n golygu gostyngiad yn nifer y lleoedd hyfforddi newydd yn hytrach na chynnydd fel y bwriadwyd yn wreiddiol.⁸⁴

103. Pan ofynnwyd a oedd hyn yn debygol o arwain at lai o bobl yn cael eu hyfforddi, dywedodd Hywel Jones wrthym:

"... strategically, what we're doing from a workforce perspective here is that we're having to temper some of our longer term investment just because of the short-term challenges that we have.

So, whilst we are holding the budget flat, we are working with HEIW to finalise how those training places are distributed, and working with them to look to increase the number of commissioned places even within holding that budget flat.

So, even within that environment, we have some confidence that we may be able to increase the training places that we're commissioning above 2023-24 levels."⁸⁵

Y gweithlu gofal cymdeithasol

104. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae'r Gweinidog yn dweud bod £10.5 miliwn wedi ei "ailflaenoriaethu" o'r grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r grant hwn wedi ei roi'n flynyddol i awdurdodau lleol ers 2019 a bydd yn cael ei leihau i £34.4 miliwn ar gyfer 2024-25. Dywedodd bod yr arian hwn wedi ei ailflaenoriaethu i sicrhau bod y gweithgarwch presennol yn parhau i gael ei gyflawni, a bod y Llywodraeth yn adolygu gweithgarwch arfaethedig ac yn ymchwilio i effeithlonrwydd ac ailgwmpasu gweithgarwch tan 2025-26.

105. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, nid oes cyllid penodol ar gael i gynorthwyo talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal. Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod materion yn ymwneud â'r gweithlu 'ar frig' y rhestr o bryderon allweddol i awdurdodau lleol:

⁸⁴ Y Pwyllgor Cyllid, 20 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 46

⁸⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 177]

“The difficulty of recruiting and retaining social care workers continues to be a major issue highlighted by councils along with recruitment challenges for qualified, high quality Social Workers, particularly in children’s services.

In order to mitigate some of the recruitment and retention challenges some councils continue to have to rely on the use of agency staff and these costs further add to financial pressures in future years.”⁸⁶

106. Maent hefyd yn cyfeirio at ganlyniadau arolwg gweithlu gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru⁸⁷, a ganfu fod gweithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi’n ddigonol gan y cyhoedd ac yn cael eu tandalu am y gwaith maent yn ei wneud:

“More than a quarter of workers claim they are likely to leave the sector in the next 12 months (26%) and 44% feel at least ‘quite likely’ to leave the sector in the next five years. The most common reason given for expecting to leave in the next 12 months is low pay (66%), while feeling overworked (54%) and poor employment or working conditions (40%) are also significant factors.”⁸⁸

107. Fe wnaethom roi'r pwyntiau hyn i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a gofyn iddi beth allai'r effaith fod ar y gweithlu presennol oherwydd diffyg cyllid penodol i ategu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal. Ymatebodd drwy ddweud:

“(…) the Minister for Finance and Local Government, under whose budget the real living wage comes, (...) has confirmed that there's funding within the revenue settlement to support payment of the real living wage for social care workers. And that was in her letter to council leaders on 20 December.

So, we do anticipate that local authorities will be paying the real living wage, and we think it is very important that the social care

⁸⁶ Y Pwyllgor Cyllid, WGDB_24-25 51, Ymateb gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

⁸⁷ Gofal Cymdeithasol Cymru, [Arolwg gweithlu gofal cymdeithasol 2023](#), Hydref 2023

⁸⁸ Y Pwyllgor Cyllid, WGDB_24-25 51, Ymateb gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

*workers get the real living wage, because there are difficulties in retention and recruitment, and I think keeping the real living wage is absolutely crucial.*⁸⁹

Ein barn ni

108. Fel rydym eisoes wedi cydnabod, mae'r sefyllfa ariannol yn y gyllideb ddrafft yn amlwg, ac mae hyn wedi gosod cyfyngiadau ar Lywodraeth Cymru o ran y cynnydd mae'n gallu ei gynnig i staff meddygol a deintyddol yng Nghymru.

109. Fodd bynnag, o ystyried bod y gweithlu yn farchnad fyd-eang, mae cael y cynnig priodol yn ei le ar yr amser priodol yn hollbwysig. I'r perwyl hwnnw, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i anrhydeddu'r addewidion a wnaed dros y misoedd diwethaf i wahanol rannau o'r gweithlu yn y gwasanaeth iechyd, ac i weithio tuag at adfer cyflogau pan fo hynny'n bosibl.

110. Serch hynny, rydym yn bryderus iawn am oblygiadau dyfarniad cyflog uwch dros y ffin o ran recriwtio a chadw staff meddygol yng Nghymru, yn enwedig pe bai'r cynnig 6 y cant a wrthodwyd yn ddiweddar i staff meddygol yn Lloegr yn cael ei wella yn ddiweddarach.

111. Ymhellach, mae'r diffyg eglurder gan lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch ffynhonnell y cyllid ar gyfer y dyfarniad cyflog ar gyfer staff meddygol yn Lloegr yn rhwystredig iawn oherwydd, er gwaethaf ymdrechion mynych, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn y tywyllwch ynghylch a all ddisgwyl taliad canlyniadol i Gymru. Mae'r sefyllfa hon yn anghynnaladwy. Mae'n mynd at wraidd cysylltiadau rhynglywodraethol yn y Deyrnas Unedig, ac mae ganddo oblygiadau ymarferol yn y byd go iawn ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn barhaus. Rhaid ei egluro fel mater o frys ac, i'r perwyl hwn, rydym wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Bydd copi o'n llythyr a'r ateb yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.⁹⁰

112. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog bod y 5% o gynnydd yn cynrychioli cynnig gorau Llywodraeth Cymru o fewn y cyfyngiadau ariannol presennol. Fodd bynnag, rydym yn ansicr a fyddai hi'n gwella'r cynnig pe bai cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gael. Hoffem iddi egluro ei safbwynt ar hyn.

⁸⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 170]

⁹⁰ Llythyr y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 23 Ionawr 2024. Ymateb Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 5 Chwefror 2024 (Saesneg yn unig).

113. Yn gysylltiedig â hyn, cytunodd y Gweinidog i roi ffigurau i ni ar amcangyfrif o'r gost o gynnig 1 y cant ychwanegol i staff meddygol a deintyddol. Rydym yn cydnabod nad yw hwn yn gynnig sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol egluro a fyddai hi'n cynyddu'r 5 y cant o ddyfarniad cyflog a wnaed i staff meddygol a deintyddol yng Nghymru pe bai cyllid canlyniadol ychwanegol ar gael gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu ffigurau ar gyfer amcangyfrif o'r gost o gynnig codiad o 1 y cant ychwanegol i staff meddygol a deintyddol yng Nghymru. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, nodwn nad yw hwn yn gynnig sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.

114. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall cost y gweithredu diwydiannol diweddar i fyrddau iechyd, nid yn unig o ran staffio, ond hefyd yn ehangach, o ran lefelau gweithgarwch. Nodwn fod asesiadau yn cael eu cynnal yn lleol gan bob bwrdd iechyd ac yna byddant yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru i'w cydgrynhoi. Mae'r Gweinidog wedi cytuno i rannu'r wybodaeth hon gyda ni pan fydd ar gael.

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion i ni am gost y gweithredu diwydiannol diweddar ar gyfer byrddau iechyd, o ran staffio a hefyd o ran lefelau gweithgarwch.

115. Rydym yn deall bod pwysau ar weithlu craidd y GIG, yn enwedig yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, wedi golygu bod angen defnyddio staff asiantaeth fel adnodd hyblyg, ychwanegol ac y byddai wedi bod yn anodd iawn darparu gwasanaethau hebddynt mewn rhai meysydd yn benodol. Ond mae'n amlwg bod diffyg cynllunio gweithlu tymor hir wedi arwain at orddibyniaeth ar staff asiantaeth, sydd wedi bod yn gostus iawn i'r gwasanaeth iechyd. Gan hynny, rydym yn falch o glywed bod lleihau gwariant yn y maes hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Gweinidog, ac rydym yn croesawu'r gostyngiad mewn gwariant eleni; mae'n amlwg bod angen i'r arbedion hyn gael eu cario ymlaen i'r blynyddoedd i ddod. Yn ehangach, mae cynllunio'r gweithlu yn gadarn a hirdymor yn hanfodol i greu a chynnal gweithlu cynaliadwy y GIG, ac rydym yn ymwybodol o'r gwaith parhaus o fewn Llywodraeth Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIG) a byrddau iechyd ar hyn. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w fonitro drwy ein rhaglen graffu barhaus.

116. Rydym yn parhau i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Cyflog Byw Go lawn i weithwyr gofal cymdeithasol. Rydym yn nodi bod cyllid wedi ei ddarparu at y diben hwn o fewn y grant cynnal refeniw, ac y mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhagweld y bydd yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol at y diben hwn. Fodd bynnag, gan nad yw'r grant cynnal refeniw wedi ei neilltuo, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fodloni ei hun ar y pwynt hwn.

117. Rydym yn bryderus ynghylch canfyddiadau Gofal Cymdeithasol Cymru bod mwy na chwarter y gweithlu gofal cymdeithasol yn debygol o adael y sector erbyn diwedd y flwyddyn hon, a 44 y cant yn y 5 mlynedd nesaf, o ystyried y prinder presennol a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau.

Argymhelliad 16. Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion i ni am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddal gafael yn y nifer sylweddol o staff sy'n bwriadu gadael y sector gofal cymdeithasol erbyn diwedd y flwyddyn.

118. Credwn fod yn rhaid i'r gweithlu gofal cymdeithasol barhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi a gwella gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn pryderu am y gostyngiad sylweddol i Grant y Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog: "rydym yn adolygu gweithgarwch sydd wedi ei gynllunio ac yn edrych ar arbedion effeithlonrwydd ac ail-gwmpasu gweithgarwch tan 2025-26".

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o wybodaeth i ni am y gweithgarwch arfaethedig sy'n cael ei adolygu fel rhan o'r gwaith o ailflaenoriaethu Grant y Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, ac ymrwymo i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw newid pellach arfaethedig yn y maes hwn.

119. Yn ehangach, mae'r Gweinidog wedi cytuno'n flaenorol i roi diweddariadau bob chwe mis i ni ar waith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a'r camau a gymerwyd i ddatblygu argymhellion y Grŵp Arbenigol ar ddatblygu gwasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru. Cawsom y cyntaf o'r diweddariadau hynny ym mis Mehefin 2023, ac rydym yn disgwyl yr un nesaf yn fuan.

6. Gofal sylfaenol ac atal

120. Nodir yn naratif cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru:

*"Yng Nghymru, bob mis, mae 2m o bobl yn cael cysylltiad â'r GIG, a hynny mewn poblogaeth o ychydig dros 3m o bobl. Mae 1.5m o bobl yn cael cyswllt â gwasanaethau gofal sylfaenol bob mis."*⁹¹

121. Mae Conffederasiwn GIG Cymru, ymhlith eraill, wedi dweud nad yw'r GIG yn gynaliadwy heb symudiad clir o adnoddau tuag at atal/ymyriadau cynnar.⁹² Aiff ymlaen i ddweud:

*"NHS leaders support an approach to further protect funding for preventative measures that recognise the importance of improving population health outcomes and sustainability of services in the longer term."*⁹³

122. Cyn ein sesiwn dystiolaeth, fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am wybodaeth ynghylch sut bydd y gyllideb yn ategu'r nod o gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio gofal sylfaenol, a symud rhagor o ofal allan o ysbytai i leoliadau gofal sylfaenol a chymunedol.

123. Yn ei hymateb ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog, gan nad yw'r rhan fwyaf o'r cyllid a ddyrannwyd i fyrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau iechyd wedi ei neilltuo,

*"Nid yw'n ymarferol nac yn fuddiol defnyddio cyllidebau craidd yn unigol fel ffordd o fesur y newid o ofal o ysbytai i ofal yn y gymuned ac atal yn unol â'r weledigaeth yn Cymru Iachach. Serch hynny, disgwylir i'r cyllid ac adnoddau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau sy'n symud i'r gymuned, ddilyn y gwasanaeth."*⁹⁴

⁹¹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Rhagfyr 2023.

⁹² Conffederasiwn GIG Cymru, Briff ar gyfer y ddadl ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2023

⁹³ ibid

⁹⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

124. Dywedir yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog bod y Fframwaith Cynllunio a roddwyd i fyrddau iechyd ym mis Rhagfyr 2023 yn pwysleisio'r angen am ffocws o'r newydd ar atal, gyda chamau gweithredu penodol yn amcanion Cadeiryddion byrddau iechyd yn edrych ar ysmegu yn ystod beichiogrwydd ac ar gynyddu capasiti gwasanaethau rheoli pwysau ledled Cymru. Mae'r Fframwaith Cynllunio, meddai, hefyd yn amlinellu'r awydd i weld mwy o gyllid yn cael ei symud i ofal sylfaenol a chymunedol.

125. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wrthym:

"We've protected resources for prevention, whether that's 'Healthy Weight: Healthy Wales', our work to reduce smoking, our work around vaping. The budget for Public Health Wales—and all their work is really focused on prevention—is £150 million next year. So, there is still a really strong focus in the work that we're doing on prevention, and (...) The planning framework that the Minister has issued makes it clear that we're expecting health boards to continue to prioritise prevention."⁹⁵

126. Aeth ymlaen i gyfeirio at y £146 miliwn a ddarparwyd i fyrddau partneriaeth rhanbarthol drwy'r gronfa integreiddio ranbarthol, gan ddweud bod atal yn thema allweddol iawn yn y gwaith maent yn ei wneud hefyd.⁹⁶

127. Amlygodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant y buddsoddiad parhaus yn y rhaglenni Sgiliau Maeth am Oes a Dechrau Iach:

"One of the things that we've continued to invest in (...) is Nutrition Skills for Life, (...) which is also about ensuring that people do know how to make healthy meals. We've continued as well to invest in our Healthy Start vouchers, which are for the poorest families to have help with the costs of buying things for little children, and we've got an ongoing programme of work around that. We've spent a lot of time raising awareness of Healthy Start vouchers, and our take-up now is the best in the UK."⁹⁷

⁹⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 195]

⁹⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 195]

⁹⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 185]

128. Fe wnaethom holi'r Gweinidog am argaeledd parhaus apiau anhwylderau rhwystrol cronig yr ysgyfaint, asthma ac adfer ar ôl COVID GIG Cymru. Dywedodd wrthym:

"(...) the COPD apps were developed as part of the respiratory health delivery plan, by the respiratory health implementation group, so that funding came to an end after eight years, as has the procurement arrangements for that respiratory toolkit, and that includes the COPD apps.

At the moment, the health boards' executives are arranging for an evaluation of that toolkit, to determine whether that should be reproced.⁹⁸

Ein barn ni

129. Fel rydym wedi ei ddweud mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn, rydym yn cydnabod penderfyniad Llywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu ei hadnoddau i gynorthwyo gwasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod y dull hwn yn cynrychioli symudiad i ffwrdd o ataliaeth sylfaenol, tymor hwy, ac y bydd hyn yn debygol gael effaith wael ar iechyd y boblogaeth, yn ogystal â chynaliadwyedd y gwasanaethau iechyd a gofal. Hoffem glywed mwy gan y Gweinidog ar y pwynt hwn yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn ogystal â pha bryd mae hi'n disgwyl bod mewn sefyllfa i gyfeirio mwy o adnoddau tuag at fesurau atal.

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r effaith y bydd y newid yn y gyllideb ddrafft o atal sylfaenol tymor hwy i gymorth ar gyfer gwasanaethau rheng flaen yn ei chael ar iechyd y boblogaeth, a chynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal. Fel rhan o hyn, dylai hi sefydlu:

- sut mae cynnydd wrth gyflawni ei nod polisi o symud mwy o adnoddau allan o ysbytai tuag at ofal sylfaenol a chymunedol yn cael ei fesur, a
- pha bryd mae hi'n disgwyl bod mewn sefyllfa i gyfeirio mwy o adnoddau at ataliaeth tymor hwy.

130. Rydym yn ymwybodol bod nifer o sefydliadau wedi galw ar i gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru gymryd golwg tymor hwy, gan gynnwys cael 'gwarant ataliol'

⁹⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 199]

fel categori gwariant ar wahân ochr yn ochr â refeniw a chyfalaf. Unwaith eto, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed ymhellach gan y Gweinidog ar y pwynt hwn yn ei hymateb i'r adroddiad hwn.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno, ar draws ei holl adrannau, categori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol, gan symud tuag at olwg cyllidebu tymor hwy er mwyn helpu i gynyddu a diogelu iechyd y boblogaeth.

131. Rydym yn croesawu'r gwaith sydd wedi ei wneud i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar dalebau Cychwyn Iach, yn enwedig cyflwyno hyfforddiant gorfodol i ymwelwyr iechyd a bydwagedd. Mae hyn, fel y nododd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, wedi arwain at fwy na 70 y cant o deuluoedd cymwys yn manteisio ar dalebau Cychwyn Iach.

132. Nodwn fod apiau anhwylderau rhwystrol cronig yr ysgyfaint, asthma ac adfer ar ôl COVID GIG Cymru yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd, a mater i fyrddau iechyd unigol fydd penderfynu a ddylid parhau i ddarparu cyllid ar eu cyfer. Rydym yn deall bod yr apiau hyn yn effeithiol wrth gynorthwyo pobl i reoli eu cyflyrau ac rydym yn pryderu y gallai eu tynnu'n ôl arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau gofal sylfaenol i ddarparu'r cymorth hwn.

7. Iechyd meddwl

133. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i glustnodi cyllid iechyd meddwl i'r GIG, a bod y gyllideb ddrafft yn cynnwys £800 miliwn at y diben hwn sydd, meddai, yn cynrychioli £25 miliwn o gynnydd i gydnabod y pwysau o ran chwyddiant a galw.

134. Fodd bynnag, dywedodd hefyd:

"We cannot increase additional funding in 2024-25, as originally planned, by £15m, and have also reduced the existing mental health central budget by a further £6m."⁹⁹

135. Gofynnem i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant egluro blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd meddwl. Wrth ymateb i hyn, dywedodd wrthym:

"(...) what we've chosen to do is prioritise front-line services (...) We increased funding in 2022-23 by £50 million for mental health, in 2023-24 to £75 million, and we had originally hoped to go up to £90 million in the forthcoming year, and we haven't been able to take that final step of the additional £15 million, because we've prioritised the delivery of front-line services."¹⁰⁰

136. Mewn perthynas â'r £6 miliwn o ostyngiad yn y gyllideb iechyd meddwl ganolog, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant:

"(...) we've been able to make that reduction through underspends. (...) we've invested so much additional money in mental health that health boards haven't been able to fill all the vacancies with the service improvement money that we've made available. (...) And also just to emphasise to the committee that we're still fully committed to the mental health workforce plan."¹⁰¹

⁹⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 229]

¹⁰¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 230]

137. Gofynnem i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sut mae'r dyraniad sydd wedi ei glustnodi yn cymharu â gwariant gwirioneddol y byrddau iechyd. Dywedodd bod yr arian a glustnodwyd yn dangos y llinell sylfaen, ac nid yr uchafswm y dylai byrddau iechyd ei wario, a bod gwariant gwirioneddol byrddau iechyd ar wasanaethau iechyd meddwl yn sylweddol fwy na'r dyraniad sydd wedi ei glustnodi. Aeth ymlaen i ddweud:

"We will be monitoring the ring fence very rigorously. I had a meeting with vice-chairs last week where I emphasised to them the importance of them monitoring the ring fence within their own health boards, and we've got very developed processes to drive performance in mental health—(...) through the integrated medium-term plans, but also through the work that the NHS executive are doing in our regular meetings with health boards to monitor performance."¹⁰²

138. Wrth ymateb i gwestiynau am gyllid ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant:

"(...) we've largely protected substance misuse services. So, the substance misuse action fund (...) we've got a £2 million increase for them in the draft budget. There's also an £812,000 increase in the health board allocations, and we've also protected the funding for children and young people as well that goes out through the APBs for the children and young people's work."¹⁰³

139. Amlygodd hefyd fod y penderfyniad wedi ei wneud i dynnu'r £1.98 miliwn o gyllid yn ôl o raglen heddlu ysgolion Cymru, sy'n darparu cymorth mewn ysgolion yng Nghymru ar bynciau, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein a llesiant personol.

140. Nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog y byddai strategaeth iechyd meddwl ddrafft newydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi yn gynnar yn y flwyddyn newydd:

"bydd amseriad hyn yn ein galluogi i gael mwy o eglurder ynghylch ein cyllidebau ar gyfer 2024-25. Mae'r oedi byr hwn yn rhoi cyfle i ni feddwl am ymrwymïadau newydd, ymrwymïadau ar draws y

¹⁰² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 232]

¹⁰³ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 240]

llywodraeth ac mewn nifer o sectorau sy'n sail i'n strategaethau i sicrhau bod modd eu cyflawni o hyd yn yr amgylchiadau ariannol heriol.

Mae'r strategaeth ddrafft yn seiliedig ar nifer o egwyddorion sy'n cynnwys mynediad teg, profiad a chanlyniadau, a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae wedi cael ei llywio gan argymhellion y Pwyllgor.¹⁰⁴

141. Cadarnhaodd Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant fod strategaeth atal hunanladdiad newydd hefyd i fod i gael ei chyhoeddi. Ynghyd â'r strategaethau, byddai cynllun cyflawni wedi ei gostio, a fydd yn cael ei adolygu dros gyfnod y strategaeth.

142. Yn olaf, mae papur y Gweinidog yn tynnu sylw at £2.2 miliwn o gyllid blynyddol i Weithrediaeth GIG Cymru er mwyn datblygu rhaglen strategol ar gyfer rhaglen iechyd meddwl a diogelwch cleifion, a fydd yn darparu adnoddau pwrpasol i GIG Cymru er mwyn ysgogi gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch. O ran y cyllid hwn, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant:

"I can't tell you what a difference I think that will make, having that dedicated NHS executive resource with a mental health programme to drive improvements across the NHS in Wales."¹⁰⁵

Ein barn ni

143. Rydym yn pryderu bod blaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen wedi golygu na fydd yn bosibl cynyddu cyllid ychwanegol yn 2024-25 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl £15 miliwn, fel y cynlluniwyd yn wreiddiol, ac y bydd y cyllid ar gyfer y gyllideb ganolog iechyd meddwl bresennol yn cael ei leihau £6 miliwn.

144. Mae angen i ni ddeall yn well yr effaith y bydd y penderfyniadau hyn yn ei chael ar allu pobl i gael cymorth amserol ac effeithiol, yn enwedig y grwpiau sydd fwyaf agored i anghydraddoldebau iechyd meddwl, ar adeg pan fo gwasanaethau a ffynonellau cymorth eraill hefyd yn cael eu gwasgu. Hoffem glywed gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch hyn, yn ogystal â'r

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

¹⁰⁵ [Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion \[paragraff 230\]](#)

gwasanaethau neu'r prosiectau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y toriad hwn.

Argymhelliad 20. Dylai'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant nodi'r gwasanaethau, y rhaglenni neu'r mentrau a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf yn sgil peidio â rhoi'r £15 miliwn o gynnydd ar gyfer iechyd meddwl, a'r effaith debygol y bydd hyn yn ei chael ar ganlyniadau iechyd meddwl, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd fwyaf agored i anghydraddoldebau.

145. Roeddem yn falch o glywed y bydd cyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG yn parhau i gael ei neilltuo, y bydd yn ystyried chwyddiant a phwysau'r galw am wasanaethau, ac y bydd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn monitro'r cyllid a neilltuir yn drylwyr. Byddwn yn mynd ar drywydd y mater hwn yn ystod y rownd cyllideb ddrafft nesaf. Yn y cyfamser, hoffem gael mwy o wybodaeth am y gwariant gwirioneddol gan fyrddau iechyd unigol o ran y cyllid a neilltuwyd, fel y gallwn gael dealltwriaeth gliriach o wariant ar wasanaethau iechyd meddwl, a'r galw amdanynt, ledled Cymru.

Argymhelliad 21. Dylai'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant roi ffigurau i ni ar gyfer y gwariant gwirioneddol gan fyrddau iechyd unigol o ran y cyllid sydd wedi ei neilltuo ar gyfer iechyd meddwl.

146. Rydym yn croesawu sicrwydd y Dirprwy Weinidog fod cyllid ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi ei ddiogelu i raddau helaeth ac edrychwn ymlaen at gael rhagor o fanylion maes o law.

147. Nodwn y bydd y strategaeth iechyd meddwl ddrafft yn cael ei chyhoeddi yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a'i bod wedi ei seilio ar nifer o egwyddorion sy'n cynnwys tegwch mynediad, profiad a chanlyniadau, a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac sydd wedi ei llywio gan argymhellion y Pwyllgor. Cawsom y diweddariad blynyddol cyntaf ar gyfer ein hadroddiad ym mis Ionawr.

8. Cyfalaf a seilwaith

Ystadau

148. Yn ei ymateb i'r Pwyllgor Cyllid, tynnodd Cydffederasiwn GIG Cymru sylw at y diffyg cyllid cyfalaf a buddsoddiad fel rhwystr mawr i ddarparu gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol:

"We need a funding solution from the Welsh Government for major capital infrastructure work required to keep services running in their current configuration.

We have called on the Welsh Government to develop a ten-year investment plan for service change to reshape NHS estates and infrastructure, including digital infrastructure, making it more sustainable, reducing carbon emissions and maximising public assets."¹⁰⁶

149. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywed y Gweinidog fod cyllideb gyfalaf lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25 yn parhau i fod yn £399 miliwn yn unol â'r sefyllfa ddangosol a gyhoeddwyd y llynedd. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn y cyllid ar gyfer y Gronfa Gyfalaf Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2024-25.

150. Mae hefyd yn dweud bod cynnal yr ystâd bresennol yn parhau i fod angen buddsoddiad sylweddol, gyda £83 miliwn ar gael i sefydliadau'r GIG fel cyfalaf dewisol i gynorthwyo'r gwaith o redeg yr adeiladau o ddydd i ddydd.

151. Yn ogystal, clywsom fod presenoldeb Concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC) yn gofyn am fuddsoddiad parhaus ar draws dau brif safle yn GIG Cymru – Llwynhelyg a Nevill Hall.¹⁰⁷

152. Fe wnaethom gyflwyno'r pwyntiau hyn i'r Gweinidog yn ystod ein sesiwn dystiolaeth. Ymatebodd drwy ddweud:

"I have lots of frustrations in my job, not having enough money for capital is right up there at the top. Because if you do want to transform things, you do need some capital."¹⁰⁸

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Cyllid, WGDB_24-25 42, Ymateb gan Cydffederasiwn GIG Cymru

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

153. Aeth ymlaen i ddweud:

"(...) we are delivering some significant new investments in Wales. But what we have to do, in the light of the fact that we only have £380 million, is to prioritise, and it is difficult to prioritise when you've got all of those additional things going on.

*And if you look at next year's budget, the fact is that about 80 per cent of the capital budget is already committed—because capital doesn't stop from one year to another; you can't build a hospital in a year or a health centre in a year—so, a lot of that money is already committed."*¹⁰⁹

Digideiddio

154. Defnyddir y Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol (DPIF) i gyllido cyfleoedd trawsnewid digidol strategol yn GIG Cymru, a'r bwriad yw ategu'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau newid gwasanaeth GIG Cymru drwy gyflymu'r gwaith o gyflawni gwelliannau gwybodeg.

155. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"It's not easy to do digital transformation in the NHS; history is littered with people who've tried to transform digital in the NHS and have failed, so we're trying to do that very carefully.

*Of course, we have Digital Health and Care Wales, who have made real progress, but obviously we'd like to go further and we'd like to go faster in this space."*¹¹⁰

156. Amlygodd tystiolaeth y Gweinidog nifer o ddatblygiadau diweddar, gan gynnwys:

- Lansio ap GIG Cymru;
- Lansio'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig;

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 255]

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 257]

¹¹⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 259]

- buddsoddiad cyfalaf o £6 miliwn mewn dyfeisiau a seilwaith seiberddiogelwch ar draws ystâd GIG Cymru.

157. Cadarnhaodd hefyd y gallai fod hyd at £5 miliwn o gyllid ychwanegol ar gael o'r tu allan i'r gronfa fuddsoddi blaenoriaethau digidol ar gyfer datblygu mwy o raglenni wedi eu gwella gan y gymuned, fel Teleiechyd a wardiau rhithwir.

158. Fodd bynnag, yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, cadarnhaodd y Gweinidog fod ailflaenoriaethu cyllid o fewn y MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn lleihau ei chyfraniad at y gwaith ar gynhwysiant digidol, drwy raglen Cymunedau Digidol Cymru, yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol. Aeth ymlaen i ddweud:

“Ers 2019, mae'r Prif Grwpiau Gwariant ar Gyfiawnder Cymdeithasol ac lechyd wedi buddsoddi £9.5m mewn gwasanaethau cynhwysiant digidol drwy raglen Cymunedau Digidol Cymru. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau digidol yn dal yn ymrwymiad allweddol ac felly mae'r gyllideb wedi'i diogelu cyn belled ag y bo modd. Bydd y buddsoddiad parhaus yn canolbwyntio ar gynnal rhaglen Cymunedau Digidol Cymru gan gydnabod y bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn effeithio ar weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau yn gyffredinol.”¹¹¹

159. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fel rhan o'n gwaith craffu ar lechyd a Gofal Digidol Cymru, nododd y corff hwnnw ddiffyg cyllid cyfalaf fel her. Nododd y gostyngiad yn y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol o £25 miliwn i £10 miliwn yn 2022-23, ac awgrymodd y gallai hyn lesteirio ei allu i ymateb i flaenoriaethau digidol a gwasanaeth newydd.¹¹²

160. Yn yr un modd, nododd Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan yr angen i wneud penderfyniadau anodd gan fod yn rhaid i'r seilwaith ar gyfer systemau allweddol a ddefnyddir wrth ddarparu gofal o ddydd i ddydd gystadlu ar sail risg â rhaglenni gwaith clinigol y rheng flaen.¹¹³

Ein barn ni

161. Yn ei thystiolaeth, mae'r Gweinidog wedi cydnabod yr angen i gael y cydbwysedd yn iawn rhwng 'cadw'r olwynion ar y bws heddiw' a thrawsnewid

¹¹¹ Y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Ionawr 2024, Papur 1

¹¹² [Craffu ar lechyd a Gofal Digidol Cymru](#), Gorffennaf 2023

¹¹³ [Craffu ar lechyd a Gofal Digidol Cymru](#), Gorffennaf 2023

gwasanaethau ar gyfer yfory. Ond, fel mae eraill wedi nodi, mae diffyg cyllid cyfalaf a buddsoddiad yn rhwystr i ddarparu gwasanaethau yn awr, nid dim ond yn y dyfodol. Hoffem glywed rhagor gan y Gweinidog ynghylch lle bydd y cyllid cyfalaf cyfyngedig sy'n cael ei ddarparu yn y gyllideb ddrafft yn cael ei dargedu, ac a yw cynlluniau hirdymor y bwrdd iechyd ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Gweinidog ei hun.

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu gwybodaeth am sut mae'r dyraniadau cyfalaf yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn alinio â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ei llythyr ym mis Rhagfyr 2023 at fyrddau iechyd i lywio eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-25. Wrth wneud hynny, dylai nodi unrhyw newid a wnaed i gynlluniau gwariant neu ddyraniadau cyfalaf blaenorol.

162. Rydym wedi clywed dro ar ôl tro bod gwella gwasanaethau digidol a seilwaith yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ond, fel rhan o'r gyllideb ddrafft hon, mae cyllid-ar gyfer strategaeth ddigidol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael ei ailflaenoriaethu, a bu toriad hefyd i'r gyllideb cynhwysiant digidol yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, a fydd yn effeithio ar raglen Cymunedau Digidol Cymru. Rydym yn dymuno archwilio effaith hyn ymhellach gyda'r Gweinidog.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r gweithgareddau, y deilliannau a'r canlyniadau i wella seilwaith digidol a chynhwysiant fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y toriadau i gyllid y strategaeth ddigidol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a'r gyllideb cynhwysiant digidol. Dylai hyn gynnwys asesiad o

- oblygiadau'r toriadau i'r cymunedau hynny sydd fwyaf mewn perygl o allgáu digidol, sy'n fwy dibynnol ar wasanaethau iechyd yn cael eu trawsnewid yn ddigidol, ac
- effaith debygol y toriadau hyn ar anghydraddoldebau o ran mynediad pobl at wybodaeth iechyd a gwasanaethau teleiechyd.